

CADWALADR (bu farw 664), tywysog

Enw: Cadwaladr

Dyddiad marw: 664

Plentyn: Idwal ap Cadwaladr Fendigaid

Rhiant: Cadwallon ap Cadfan

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: tywysog

Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: John Edward Lloyd

Mab [Cadwallon ap Cadfan](#). Pan fu farw tad Cadwaladr yn 633 syrthiodd Gwynedd i ddwylo anturiaethwr, Cadafael ap Cynfedw, a deyrnasodd hyd nes iddo orfod cilio'n ôl mewn gwaradwydd o frwydr Winwedfeld yn 654. Daeth Cadwaladr i'w etifeddiaeth yr adeg hon, ond daeth pla mawr 664 a cholodd ei fywyd.

Er mai teyrnasiad di-ddigwyddiad a gafodd, daeth Cadwaladr yn r pwysig yng ngolwg beirdd a barddas oesoedd diweddarach. Er enghraifft, ym ' Mhroffwydoliaeth Myrddin,' fel y'i ceir gan [Sieffre o Fynwy](#), rhagfynegir y bydd i Gadwaladr alw ar Gynan i ddyfod yn ôl a gwneud cyfamod ag Alban (Ysgotland). Y mae'r gred neu'r broffwydoliaeth y dychwelai Cadwaladr i arwain cenedl y Cymry i fuddugoliaeth ar y Saeson yn beth cyffredin iawn yn y 'cywyddau brud,' y llu caniadau hynny mewn iaith aneglur braidd lle y celai'r beirdd eu cymhellion i ymladd dros annibyniaeth Cymru. Mynnai [Harri VII](#) ei fod yn disgyn o'r arwr poblogaidd hwn yn yr eilfed-radd-ar-hugain (Wynne, 336), ac yr oedd arwydd draig goch Cadwaladr ar un o'r tair baner a gyflwynodd ef i eglwys S. Paul, Llundain, yn 1485.

Eithr fe geir Cadwaladr yn cael ei ddynodi mewn modd cwbl wahanol hefyd - Cadwaladr Fendigaid, nawddsant Llangadwaladr ym Môn, Llangadwaladr yn sir Ddinbych, a Bishton (Llangadwaladr gynt) yn sir Fynwy. Yn fersiwn hynaf Achau'r Saint dywedir fod y sant yn fab lago ap Beli (*Br. SS.*, iv, 369), h.y. hen-ewythr y tywysog - y mae'n bosibl fod dau aelod o'r un teulu wedi cael eu cymysgu.

Rhydd [Sieffre o Fynwy](#) ei fersiwn ef ei hun o weithrediadau Cadwaladr, gan orffen trwy ychwanegu at ei stori y manylion a rydd Beda am farwolaeth Cadwalla Wessex.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 190, 230-1

The Historia Regum Britanniae of Geoffrey of Monmouth (1929), 388; xii, 16

The Lives of the British Saints, ii, 43-6

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Cadwaladr](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2454699](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

